**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Safonau Marchnata Wyau Maes (Diwygio) (Cymru) 2025**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi cael ei baratoi gan yr Is-adran Fwyd i gael ei osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â’r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

## Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae’r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Safonau Marchnata Wyau Maes (Diwygio) (Cymru) 2025. Rwy’n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau’r costau posibl.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

**28 Ionawr 2025**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Offeryn Statudol hwn yn diwygio'r safonau marchnata wyau presennol i ganiatáu i wyau maes gael eu marchnata o dan y disgrifiad hwnnw pan osodir mesurau gorfodol i gadw adar o dan do, ni waeth am faint o amser maent yn cael eu rhwystro rhag cael mynediad at fannau awyr agored.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r offeryn yn diwygio deddfwriaeth yr UE a gymhathwyd a gafodd ei chadw o fewn cyfraith ddomestig ar ôl 1 Ionawr 2021 pan ddaeth Cyfnod Pontio'r UE i ben:

- O dan Atodiad 2 i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008, pan fo mesurau'n cael eu mabwysiadu sy'n ei gwneud yn ofynnol cyfyngu ar fynediad ieir at fannau awyr agored er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid, caiff wyau barhau i gael eu marchnata o dan label 'wyau maes' am gyfnod parhaus nad yw'n hwy nag 16 wythnos.
- Bydd yr offeryn hwn yn dileu'r amserau presennol sy'n berthnasol i hyd rhanddirymiad i ganiatáu parhau i farchnata wyau o dan y disgrifiad 'wyau maes', tra bydd unrhyw fesurau gorfodol i gadw adar o dan do ar waith i ddiogelu iechyd y cyhoeddi ac iechyd anifeiliaid, ni waeth beth yw hyd y cyfnod hwnnw.

3.2 Mae'r offeryn hwn wedi'i wneud drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 34(1) a 50(3) o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ('Deddf 2023').

3.3 Mae adran 34(1) o Ddeddf 2023 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch *y 'safonau y mae'n rhaid i gynhyrchion amaethyddol penodol gydymffurfio â nhw pan gânt eu marchnata yng Nghymru'.* Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2023 yn rhestru'r cynhyrchion sy'n cael eu hystyried yn 'gynhyrchion amaethyddol', gan gyfeirio at Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ('y Rheoliad CMO'). Mae paragraff 5 i Atodlen 1 o Ddeddf 2023 yn nodi bod wyau a chynhyrchion wyau'n cael eu hystyried yn 'gynhyrchion amaethyddol'.

3.4 Mae adran 50(3) o Ddeddf 2023 (fel y'i darllenir ar y cyd ag adran 5 o Ddeddf Cyfraith yr UE ar ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn cadarnhau y caiff rheoliadau wedi'u gwneud o dan Ddeddf 2023 ddiwygio deddfwriaeth uniongyrchol a gymathwyd.

3.5 Mae adran 50(6) yn cadarnhau y bydd rheoliad wedi'i wneud drwy arfer pwerau a nodir yn adran 34(1) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. O'r herwydd, bydd angen i'r Senedd gymeradwyo'r rheoliadau hyn cyn iddynt gael eu gwneud.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Pwrpas yr Offeryn Statudol hwn yw caniatáu i wyau maes gael eu marchnata o dan y disgrifiad hwnnw pan osodir mesurau gorfodol i gadw adar o dan do, ni waeth am faint o amser maent yn cael eu rhwystro rhag cael mynediad at fannau awyr agored.

4.2 Yng Nghymru bu achosion o Ffliw Adar (AI) a arweiniodd at roi mesurau ar waith yn ei gwneud yn orfodol cadw dofednod maes o dan do yn hwy na'r terfyn amser 16 wythnos ar y rhanddirymiad yn ystod y gaeaf ym Mlwyddyn 2021–22 (am 22 wythnos) a Blwyddyn 2022–23 (am 19 wythnos). Ar ôl hynny ni ellid marchnata wyau maes o dan y disgrifiad hwnnw ac roedd rhaid eu labelu'n wyau sgubor. Bydd yr offeryn hwn yn sicrhau nad yw cynhyrchwyr wyau maes yn cael eu cosbi am gydymffurfio â mesurau gorfodol i gadw adar o dan do a roddir ar waith o dan ganllawiau'r Prif Swyddog Milfeddygol i ddiogelu lles adar ac iechyd y cyhoedd.

4.3 Amcangyfrifir bod y Deyrnas Unedig (DU) yn cynhyrchu 90% o'r holl wyau sydd eu hangen arni, a bod 64% o'r wyau hynny'n wyau maes. Yng Nghymru, wyau maes sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r wyau sy'n cael eu cynhyrchu, gyda thua 90.7% o gynhyrchwyr wyau Cymru wedi'u rhestru fel cynhyrchwyr wyau maes – amcangyfrif o gyfanswm o 327 o gynhyrchwyr wyau maes yng Nghymru. Mae Cymru yn cynhyrchu 21.1% o gyfanswm yr wyau maes sy'n cael eu cynhyrchu yn y DU (2022)[1]. Ar hyn o bryd mae busnesau Cymru yn gweithredu'n ddi-dor gyda gweddill y DU, gyda lefel uchel o fasnachu wyau ar draws ffiniau a'r rhan fwyaf o wyau Cymreig yn cael eu hanfon i ganolfannau pecynnu yn Lloegr.

4.4 Yr Undeb Ewropeaidd (UE) yw prif gyflenwr wyau a fewnforir, yn enwedig drwy Ogledd Iwerddon, ac mae tua 94% o'r wyau sy'n cael eu hallforio gan y DU yn cael eu hanfon i'r UE. Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, rhoddodd Llywodraeth y DU statws 'cyfwerth' i wyau a fewnforir gan yr UE, a gwnaeth yr UE ymateb drwy roi'r un statws i wyau o'r DU. Roedd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar y ddau barti yn rhoi deddfwriaeth ar waith sy'n cyd-fynd yn agos â'i gilydd.

[1] Amcangyfrif Brookdale (2022)la

4.5 Gwnaeth yr UE, a thrwy hynny Gogledd Iwerddon (yn unol â Fframwaith Windsor), ddiwygio deddfwriaeth safonau marchnata ar gyfer wyau yn 2023. Os rhoddir mesurau gorfodol ar waith i gadw adar o dan do, bydd wyau'n cael eu gwerthu o dan y disgrifiad wyau maes ni waeth am faint o amser mae'r ieir wedi cael eu cadw o dan do, gan ddileu'r terfyn amser o 16 wythnos. Mae DEFRA a Gweinyddiaeth yr Alban wedi ymgynghori ynghylch mabwysiadu'r un polisi ar gyfer wyau â'r UE/Gogledd Iwerddon i sicrhau bod y sefyllfa fasnachu gydradd yn parhau – gyda'r Alban wedi gweithredu'r newidiadau yn 2024, a Lloegr yn gweithio tuag at gyflwyno camau gorfodi ym mis Ionawr 2025.

4.6 Pe bai polisi Cymru yn anghyson â gweddill y DU a'r UE, byddai hyn yn ychwanegu rhagor o gymhlethdod at weithrediadau yn ogystal ag arwain at gostau uwch. Mae'n bosibl y byddai hyn yn sbarduno costau uwch a phrinder wyau, a fyddai'n cael effaith sylweddol ar ddefnyddwyr yn ogystal â phroffidioldeb a hyfywedd busnesau Cymru sy'n buddsoddi mewn cynhyrchu wyau maes.

4.7 Mae'r offeryn hwn yn gwneud yn siŵr y gall Cymru sicrhau cydraddoldeb â gweddill y DU a'r UE. Pe na bai deddfwriaeth Cymru yn cael ei halinio, hi fyddai'r unig wlad yn y DU a fyddai'n gorfod newid y ffordd mae wyau'n cael eu labelu pe bai rhanddirymiad yn para'n hwy na'r terfyn amser. Sefyllfa a fyddai'n rhoi cynhyrchwyr Cymru dan anfantais fasnachol.

4.8 Mae'r tebygolrwydd o achosion o ffliw adar yn cynyddu yn ystod tywydd oerach. Yn ystod tymor gaeaf a haf 2024–25 mae nifer o achosion o HPAI (ffliw adar pathogenig Iawn) wedi cael eu cadarnhau yn Lloegr, gyda gweithgareddau i reoli'r clefyd a pharthau gwyliadwriaeth yn cael eu cyhoeddi yn Lloegr ers mis Tachwedd 2024 ac, yn fwy diweddar, un yn Angus yn yr Alban ym mis Ionawr 2025. Hyd yma ni fu unrhyw achosion yng Nghymru ym Mlwyddyn 2024–2025. Fodd bynnag, pe bai mesurau gorfodol i gadw adar o dan do yn cael eu rhoi ar waith, yna mae rhanddirymiad ar hyn o bryd yn caniatáu 16 wythnos lle y caiff wyau maes barhau i gael eu gwerthu heb newidiadau i labeli ar y cynhyrchion na'r pecynnau. Byddai unrhyw oedi cyn i'r offeryn hwn ddod i rym yn cael effaith negyddol ar fusnesau, yn enwedig gan y byddai'r newidiadau yn Lloegr, a fydd yn dod i rym ym mis Ionawr 2025, yn creu anghysondeb rhwng y ddwy wlad ac yn peri heriau i gadwyn gyflenwi gydgysylltiedig.

4.9 Yn ogystal, pe na bai'r Offeryn Statudol yn cael ei weithredu o fewn yr amserlen arfaethedig a bod achos o ffliw adar yn arwain at fesurau gorfodol i gadw adar o dan do, sy'n para'n hwy na'r terfyn 16 wythnos ar y rhanddirymiad, yna byddai angen israddio wyau Cymru sydd wedi cael eu magu fel wyau maes i statws wyau sgubor. Nodwyd yn yr ymgynghoriad y gallai canolfannau pecynnu yn Lloegr wrthod derbyn wyau o Gymru er mwyn osgoi cymhlethdod wrth ail-labelu ac ail-

becynnu. Byddai hyn yn arwain at ganlyniadau ariannol sylweddol i fusnesau Cymru ac yn effeithio ar enw da Lywodraeth Cymru.

## 5. Ymgynghori

### 5.1 Ymgynghoriad ffurfiol

O ystyried natur frys y newidiadau hyn, cynhaliwyd ymgynghoriad am gyfnod byrrach o chwe wythnos rhwng 29 Gorffennaf a 9 Medi 2024. Roedd hyn er mwyn rhoi rhagor o amser i'r Rheoliadau ddod i rym pe bai achos o ffliw adar yn digwydd ddiwedd 2024/dechrau 2025 a mesurau gorfodol i gadw adar o dan do yn cael eu rhoi ar waith.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ynghylch a ddylid gwneud newidiadau i'r gyfraith, gan ragweld y byddai'r canlyniad yn effeithio'n uniongyrchol ar gynhyrchwyr, proseswyr, manwerthwyr, mewnforwyr, allforwyr, defnyddwyr a sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r diwydiant wyau. Cafodd yr ymgynghoriad ei gyhoeddi ar wahanol blatfformau a chafodd rhanddeiliaid y diwydiant eu hysbysu am yr ymgynghoriad a'u gwahodd i gyfrannu.

Daeth 40 ymateb i'r ymgynghoriad i law, yn bennaf gan y diwydiant wyau a chig dofednod: cynhyrchwyr wyau, cynhyrchwyr cig dofednod, proseswyr, manwerthwyr, mewnforwyr, allforwyr, a chyrff masnach ac aelodaeth y sector. Cafodd y newid arfaethedig gefnogaeth gref, gydag 89% o'r ymatebwyr yn cefnogi dileu'r terfyn amser o 16 wythnos ar y rhanddirymiad yng Nghymru ar gyfer wyau maes. Roedd 94% hefyd yn cytuno y byddai'n well pe bai polisïau yng Nghymru yn gyson â pholisïau mewn gwledydd eraill fel Lloegr a'r Alban. Roedd chwarter yr ymatebwyr o'r farn y gallai'r newidiadau arfaethedig mewn perthynas ag wyau maes beri dryswch i ddefnyddwyr. Ymhlith yr awgrymiadau a roddwyd er mwyn lliniaru hyn roedd darparu labeli ychwanegol ar adeg y gwerthu. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at natur gymhleth a chydgysylltiedig y gadwyn gyflenwi wyau a chig dofednod ledled y Deyrnas Unedig. Mae ganddo gysylltiadau masnach ryngwladol, ac mae'n bosibl y byddai peidio ag alinio deddfwriaeth â gweddill y DU yn arwain at gymhlethdod a chostau ychwanegol wrth weithredu'r gadwyn gyflenwi a chostau uwch ar gyfer defnyddwyr.

Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn: Safonau marchnata ar gyfer cig dofednod ac wyau maes | LLYW.CYMRU

### 5.2 Arolwg Defnyddwyr

Comisiynwyd arolwg drwy Arolwg Beaufort Omnibws Cymru i nodi effaith y newidiadau polisi i labelu wyau maes ar ddefnyddwyr Cymru,

gan archwilio a oedd defnyddwyr yn gefnogol, yn bryderus neu'n ddifater.

Roedd yr arolwg, a gynhaliwyd rhwng 3 a 23 Mehefin 2024, yn cynrychioli oedolion 16 oed neu'n hŷn sy'n byw yng Nghymru. O'r 1,000 o gyfweliadau a gafodd eu cynnal a'u dadansoddi, roedd 75% yn cefnogi'r syniad o ieir maes  dofednod eraill yn cael eu cadw o dan do yn ystod pandemig ffliw adar. Ar ôl yr eglurwyd, yn yr amgylchiadau hyn, y caniateid parhau i werthu wyau a chig dofednod o'r adar hyn o dan y disgrifiad cynhyrchion maes am gyfnod penodol, heb unrhyw ail-labelu neu ail-becynnu, roedd mwyafrif o 60% yn teimlo bod hyn yn dderbyniol. Dywedodd bron i hanner (49%) y byddent yn cefnogi cyflwyno yng Nghymru yr un polisi ag sy'n cael ei gyflwyno yng ngweddill y DU/UE; dwedodd 27% na fyddent yn cefnogi hyn; a dwedodd 23% eu bod yn ansicr.

***Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn Adran 2.***

Mae'r Arolwg Defnyddwyr ar gael yn: Arolwg Wyau Maes a Chig Dofednod | LLYW. CYMRU

### 5.3 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Mae cyfarfodydd wedi cael eu cynnal ag aelodau'r diwydiant i drafod cynnig yr ymgynghoriad i ddileu'r terfyn amser 16 wythnos ar y rhanddirymiad. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cynnwys trafodaeth â manwerthwyr i archwilio'r ffordd fwyaf effeithiol o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddefnyddwyr pan fydd mesurau gorfodol i gadw adar o dan do ar waith.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Cyflwyniad

6.1 Mae'r adran hon yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) ar gyfer y diwygiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth a fydd yn dileu'r terfyn amser ar y rhanddirymiad, ac yn caniatáu i wyau maes gael eu marchnata o dan y disgrifiad hwnnw pan osodir mesurau gorfodol i gadw adar o dan do.

Bydd yr RIA hwn yn rhoi asesiad i Weinidogion Cymru o gostau a manteision tebygol yr offeryn, ac mae'n seiliedig ar yr egwyddorion a'r canllawiau a nodir yng Nghod Asesu Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

Mae'r canfyddiadau a'r amcangyfrifon a gyflwynir yn y RIA hwn yn ddangosol ac yn seiliedig ar yr wybodaeth a oedd ar gael adeg y dadansoddi. O ystyried rhyng-gysylltiadau cryf y gadwyn gyflenwi wyau rhwng Cymru a gweddill y DU, mae llawer o'r ffigurau sydd wedi cael eu defnyddio ar gyfer y DU gyfan. Mae data sy'n benodol i Gymru wedi cael ei ddefnyddio pan fo hynny'n berthnasol ac yn briodol. Mae'r RIA yn dilyn methodoleg debyg i'r hyn wedi'i defnyddio gan DEFRA yn eu dadansoddiad cyfatebol.

### 7. Trosolwg o Bolisi

#### 7.1 Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Mae mesurau gorfodol i gadw adar o dan do wedi cael eu rhoi ar waith yn ddiweddar fel rhan allweddol o'r strategaeth rheoli Clefydau Adar. O dan y rheoliadau safonol presennol ar gyfer marchnata wyau, sydd wedi'u cynnwys yn neddfwriaeth yr UE a ddargedwir (REUL), caiff wyau maes barhau i gael eu marchnata o dan y disgrifiad hwnnw yn ystod rhanddirymiad 16 wythnos. Ar ôl y cyfnod hwn, rhaid eu hailddosbarthu a'u gwerthu o dan y disgrifiad wyau sgubor. Yn ystod y ddau achos diwethaf, parhaodd y rhanddirymiad am fwy nag 16 wythnos, ac o ganlyniad roedd yn ofynnol labelu wyau maes yn wyau sgubor am chwe wythnos yn ystod yr achos yn 2020–21 ac am dair wythnos yn ystod yr achos yn 2022–23.

Mae'r Undeb Ewropeaidd eisoes wedi newid ei safonau marchnata wyau i alluogi eu hwyau i gael eu gwerthu o dan y disgrifiad wyau maes, ni waeth pa mor hir y mae ieir o dan gyfyngiadau sy'n ei gwneud yn orfodol eu cadw o dan do, ac mae hyn yn cynnwys Gogledd Iwerddon (NI) o dan Fframwaith Windsor. Yn y bôn, gallai hyn roi cynhyrchwyr wyau maes yng Nghymru o dan anfantais gystadleuol, os yw'n ofynnol i'w hwyau gael eu labelu'n wyau sgubor os yw'r rhanddirymiad yn para'n hwy nag 16 wythnos – yn enwedig pan nad yw'n ofynnol i wyau o weddill y DU neu wyau a fewnforir o'r UE a Gogledd Iwerddon wneud hynny. Gan fod hwn yn fater datganoledig, rhaid i

Gymru ddewis a ddylent wneud yr un peth, gyda Lloegr wedi gosod ei OS a Gweinyddiaeth yr Alban yn y broses o wneud hynny.

Os nad yw Cymru'n mabwysiadu mesurau tebyg i weddill y DU a'r UE, gallai cynhyrchwyr Cymru wynebu anfanteision sylweddol, gan arwain at effeithiau negyddol hirdymor ar y diwydiant wyau maes yng Nghymru. Mae'r diwydiant wedi dweud bod y pryderon hyn yn cael eu dwysáu gan heriau presennol, sef costau cynhyrchu cynyddol, yr argyfwng costau byw a phrinder llafur. Yn ogystal, telir pris premiwm am wyau maes oherwydd y safonau lles uwch. Yn ystod mesurau gorfodol i gadw adar o dan do, mae cynhyrchwyr nid yn unig yn ysgwyddo'r gost ychwanegol o gynnal systemau wyau maes wrth sicrhau bod ieir yn cael eu cadw o dan do, ond hefyd maent yn colli'r pris premiwm a delir am wyau maes pan fydd yn ofynnol iddynt ail-labelu wyau'n wyau sgubor.

Byddai'r offeryn hwn yn sicrhau nad yw cynhyrchwyr wyau maes yn cael eu cosbi am gydymffurfio â mesurau gorfodol i gadw adar o dan do, drwy ganiatáu i wyau maes gael eu marchnata o dan y disgrifiad wyau maes, ni waeth pa mor hir mae ieir wedi cael eu cadw o dan do. Byddai hyn yn helpu cynhyrchwyr i adennill costau ac yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd wyau maes sy'n cael eu mewnforio neu sy'n dod o weddill y DU yn cymryd lle wyau o Gymru. Byddai'r offeryn hwn yn cefnogi hyfywedd hirdymor y diwydiant wyau maes yng Nghymru.

## 8. Yr Opsiynau

**Opsiwn 1: Busnes fel arfer** – cadw'r terfyn amser 16 wythnos ar y rhanddirymiad

Wrth gadw'r terfyn amser presennol ar y rhanddirymiad mae angen ystyried tri pheth:

- Yr angen am ail-labelu, sydd yn aml yn golygu rhoi sticeri dros yr hen labeli neu ailbecynnu.
- Colli marchnadoedd allforio posibl a'r risg y bydd wyau maes sy'n cael eu mewnforio o'r UE, Gogledd Iwerddon a gweddill y DU yn cael eu gwerthu yn lle wyau a gynhyrchir yma yng Nghymru, er eu bod hefyd wedi cael eu cynhyrchu gan ieir sy'n cael eu cadw o dan do.
- Oherwydd natur ryng-gysylltiedig y gadwyn gyflenwi, pe bai polisi Cymru yn wahanol i bolisi gweddill y DU, byddai hyn yn arwain at sefyllfa lle mai Cymru fyddai'r unig wlad yn y DU a fyddai'n gorfod ymateb pe bai'r rhanddirymiad yn para'n hwy na'r terfyn o 16 wythnos.

Pan fydd mesurau ar waith i gadw adar o dan do, mae cynhyrchwyr wyau maes yn parhau i ysgwyddo'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chynnal y cyfleusterau awyr agored gofynnol. At hynny, amcangyfrifir bod cost gyffredinol cynhyrchu wyau maes yn y DU 17% yn uwch na

chost cynhyrchu wyau sgubor[2]. Yn ystod yr achos o ffliw adar yn 2022–23, heb yr esemptiadau ad hoc eithriadol byddai wedi bod yn ofynnol i gynhyrchwyr wyau maes osod sticeri dros y labeli ar eu pecynnau, pe bai eu hieir wedi cael eu cadw o dan do ar ôl i'r rhanddirymiad 16 wythnos ddod i ben. Drwy'r ymgynghoriad, mae cynhyrchwyr wyau Cymru wedi lleisio pryder ynghylch anfanteision cystadleuol disgwyliedig.

**Opsiwn 2: Estyn y terfyn amser 16 wythnos ar y rhanddirymiad**

Pe bai'r rhanddirymiad yn cael ei estyn, dim ond efelychu'r hyn y mae'r rhanddirymiad 16 wythnos presennol yn ei wneud fyddai hynny. Y risg o hyd yw y gallai achos o ffliw adar bara'n hwy na'r terfyn amser newydd a gyflwynir, a byddai hyn yn arwain at yr un problemau ag o'r blaen.

Hefyd, Llywodraeth Cymru fyddai'r unig lywodraeth yn y DU a fyddai'n gorfod dweud wrth y diwydiant y byddai angen rhagor o amser i ddod o hyd i ddeunyddiau pecynnu er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau. Am y rhesymau hyn nid yw'r opsiwn hwn yn cael eu hystyried ar gyfer dadansoddi pellach.

**Opsiwn 3: Diddymu'r terfyn amser 16 wythnos ar y rhanddirymiad**

Mae'r **opsiwn a ffefrir** i ddileu'r terfyn amser ar y rhanddirymiad yn ystod achos o ffliw adar yn dileu risgiau posibl pe bai deddfwriaeth y DU yn anghyson â deddfwriaeth yr EU – er enghraifft, cystadleuaeth fasnachu, colli refeniw a chostau uwch. Mae'r opsiwn hwn yn rhoi rhagor o ddiogelwch i gynhyrchwyr wyau maes drwy ganiatáu iddynt barhau i werthu eu hwyau o dan y disgrifiad wyau maes, ni waeth pa mor hir mae'r mesurau gorfodol i gadw adar o dan do yn para. Byddai hyn yn sicrhau eu bod yn derbyn eu pris premiwm yn ddi-dor. Bydd y sefydlogrwydd hwn yn eu helpu i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu wyau maes, gan sicrhau bod y cyfleusterau hynny'n parhau i fod yn weithredol ac yn barod pan fydd y mesurau i gadw adar o dan do yn cael eu codi.

Pe na bai’r terfyn ar hyd y rhanddirymiad yn cael ei ddiddymu, byddai cynhyrchwyr Cymru yn wynebu costau am labelu na fyddai angen i gynhyrchwyr yn yr UE a gweddill y DU eu talu. Ar ben hynny, ni fyddai'n ofynnol i gynhyrchwyr o Gymru ail-labelu wrth allforio i'r UE ac, o ganlyniad, gallai cynhyrchwyr Cymru flaenoriaethu'r marchnadoedd allforio hyn dros gyflenwi domestig er mwyn osgoi'r costau hyn a sicrhau elw uwch.

## 9. Costau a manteision

Bydd yr adran hon yn archwilio'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â gweithredu'r OS hwn, sef dileu'r terfyn amser 16 wythnos ar y

[2] Amcangyfrif y diwydiant (sylwer nad yw wedi bod yn bosibl gwirio'r costau amcangyfrifedig hyn, a ddarparwyd gan y diwydiant ac a ddefnyddiwyd yn nadansoddiad DEFRA).

rhanddirymiad, o'u cymharu â'r opsiwn busnes fel arfer. Mae'r costau a'r manteision posibl o ganlyniad i weithredu'r Offeryn Statudol hwn wedi cael eu categoreiddio yn gostau ariannol a chostau anariannol.

9.1 **Costau**

Mae costau allweddol posibl o ganlyniad i ddiddymu'r terfyn 16 wythnos ar y rhanddirymiad wedi cael eu hamlinellu fel a ganlyn.

9.2.1 Costau anariannol

Un math o gost a allai ddeillio o weithredu'r OS yw'r posibilrwydd y bydd defnyddwyr yn newid eu patrymau prynu pan fyddant yn cael gwybod am y newidiadau i labelu. Mae'n debyg mai'r rhai sy'n gwerthfawrogi safonau lles anifeiliaid uwch a fyddai'n gwneud hyn, ac wrth gael gwybod am y newidiadau deddfwriaethol gallent osgoi wyau sydd wedi'u labelu'n wyau maes, gan wybod bod yr ieir wedi cael eu cadw dan do yn ystod mesurau gorfodol i gadw adar o dan do. Gallai'r newid i'r rheoliadau hefyd effeithio ar hyder defnyddwyr ym mrand cyffredinol wyau maes, a allai gael effaith sylweddol ar y diwydiant wyau maes o ystyried bod 90.7% o gynhyrchwyr wyau yng Nghymru wedi'u rhestru fel cynhyrchwyr wyau maes. Mae hyn yn cyfateb i 21.1% o gyfanswm yr wyau maes sy'n cael eu cynhyrchu yn y DU[3].

Nododd yr Arolwg Defnyddwyr[4] ei bod yn well gan lawer o ddefnyddwyr yng Nghymru brynu wyau maes. Pan ofynnwyd iddynt am amlder eu dewis, atebodd 55% eu bod 'bob amser' yn dewis wyau maes, a dywedodd 19% eu bod 'yn aml' yn gwneud hynny. Ymhlith y defnyddwyr hyn, dwedodd y mwyafrif, sef 78%, eu bod yn prynu eu hwyau o'r archfarchnad. Wrth asesu agwedd defnyddwyr Cymru at labelu wyau maes, dywedodd 24% o'r ymatebwyr nad oedd yn dderbyniol i becynnau barhau i gael eu labelu a'u gwerthu o dan y disgrifiad wyau maes heb unrhyw ail-labelu neu ail-becynnu, os yw'r ieir wedi cael eu cadw o dan do am gyfnod estynedig. Pan ofynnwyd i ddefnyddwyr a fyddai'r newid i'r rheoliadau'n gwneud unrhyw wahaniaeth i'w harferion prynu, dywedodd 27% y byddai'n gwneud gwahaniaeth, ac o'r rhain, dwedodd 62% y byddent yn prynu wyau maes yn llai aml.

Er ei bod yn anodd asesu'n gywir sut y byddai newid y rheoliadau'n effeithio ar alw defnyddwyr yn ymarferol, mae canfyddiadau'r arolwg hwn yn nodi, er y gallai lleiafrif bach fod â phryderon, fod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr at ei gilydd yn derbyn, yn ystod achosion o ffliw adar, y

[3] Amcangyfrif Brookdale (2022)
[4] Arolwg Wyau Maes Llywodraeth Cymru, Beaufort Research (Mehefin 2024)

dylid caniatáu parhau i labelu wyau o ieir sydd wedi cael eu cadw o dan do yn wyau maes, dros dro, nes y bydd y risg o'r clefyd yn lleihau.

9.2.2 Costau ariannol

Gan gymryd y bydd archfarchnadoedd yn parhau i reoli prisiau wyau i'w hatal rhag gostwng os yw'r galw yn gostwng, byddai disgwyl i gael gwared ar y terfyn amser ar y rhanddirymiad gael yr effaith leiaf ar y sector.

Gan fod y newid arfaethedig i ddeddfwriaeth yn ffurfioli amodau sydd wedi cael eu harfer o'r blaen o dan amgylchiadau eithriadol, disgwylir na fydd busnesau'n wynebu unrhyw gostau ychwanegol sylweddol pan fydd y terfyn amser ar y rhanddirymiad yn cael ei ddileu. Disgwylir i unrhyw gostau a ysgwyddir fod yn fach ac yn debygol o godi o dasgau gweinyddol fel ymgyfarwyddo â'r canllawiau newydd. Disgwylir na fydd y gost hon yn berthnasol ond yn y flwyddyn y mae'r offeryn yn cael ei weithredu.

Amcangyfrifwyd y costau hyn gan ddefnyddio'r fethodoleg yn Atodiad A ac fe'u dangosir yn Nhabl 1.

Tabl 1. Costau – Costau ariannol i fusnesau

| | **2025** |
|---|---|
| **Costau ymgyfarwyddo** | £61,600 |

9.3 **Manteision**

Nod yr offeryn yw cael gwared ar y terfyn 16 wythnos ar y rhanddirymiad. Byddai hyn yn lleihau costau i fusnesau drwy gael gwared ar dreuliau a fyddai fel arall yn codi o ganlyniad i ddilyn y fframwaith rheoleiddio 'Busnes fel arfer' presennol (**Opsiwn 1**). Bydd y rheoliadau presennol sy'n cynnwys y terfyn 16 wythnos ar y rhanddirymiad yn cael eu defnyddio'n llinell sylfaen i asesu manteision y newidiadau arfaethedig o dan yr opsiwn 'Diddymu'r terfyn 16 wythnos ar y rhanddirymiad' (**Opsiwn 3**).

Mae'r prif arbedion cost, a ystyrir yn fanteision allweddol, wedi cael eu hamlinellu isod. Mae'r amcanestyniadau hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddai Cymru yn wynebu achosion o HPAI sy'n golygu bod angen mesurau gorfodol i gadw adar o dan do yn ystod y blynyddoedd nesaf.

9.3.1 **Manteision ariannol**

Dim gofyniad i osod sticeri ar becynnau

O dan ddeddfwriaeth bresennol, bu'n ofynnol i gynhyrchwyr osod sticeri ar becynnau, ar ôl i'r rhanddirymiad 16 wythnos sy'n caniatáu marchnata wyau maes o dan y disgrifiad hwnnw ddod i ben (yn ystod mesurau

gorfodol i gadw adar o dan do). Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yn lle hynny mae'r diwydiant wedi argraffu 'wyau sgubor' yn uniongyrchol ar becynnau, gan leihau'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag israddio wyau maes. Defnyddiwyd y dull hwn o dan amgylchiadau eithriadol, ac mae'n ofynnol i fusnesau barhau i osod sticeri ar y pecynnau.

Mae cost gosod sticeri i fusnesau wedi cael ei hamcangyfrif o nifer y pecynnau o wyau sy'n cael eu gwerthu yng Nghymru[5], ac amcangyfrif o 80%[6] ar gyfer cyfanswm blynyddol yr wyau maes sy'n cael eu prosesu mewn canolfannau pecynnu yng Nghymru. Mae cost gosod sticeri yn 2025, fel y'i dangosir yn Nhabl 2, wedi cael ei hamcangyfrif gan ddefnyddio'r fethodoleg yn **Atodiad B**.

Tabl 2. Manteision – osgoi cost gosod sticeri ar becynnau

| | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost gosod sticeri ar becynnau** | £27,700 | £27,700 | £27,700 | £27,700 | £27,700 |

Yn y tymor hir, rhagwelir y bydd costau sy'n gysylltiedig â gosod sticeri ar becynnau'n gostwng bob blwyddyn, gan y disgwylir i nifer y pecynnau yr effeithir arnynt ostwng. Rhagwelir i nifer y pecynnau yr effeithir arnynt ostwng er y bydd nifer yr wyau sy'n cael eu prynu'n codi'n raddol o ganlyniad i dwf yn nifer yr aelwydydd[7] a'r boblogaeth[8]. Ymhlith y dylanwadau a nodwyd sy'n ysgogi'r dirywiad hwn, mae gostyngiad yn y galw am wyau maes wrth i ddefnyddwyr Cymru ddewis prynu wyau maes yn llai aml, yn enwedig wrth ymateb i wyau maes yn cael eu labelu yn ôl y disgrifiad hwnnw pan fydd y rhanddirymiad yn dechrau. Ar ben hynny, gallai cyflwyno brechlyn, y rhagwelir y bydd yn cael effaith drosiannol erbyn 2028–29, effeithio ar y pecynnau dan sylw o fewn pum mlynedd i'r diwygiad, a chael effaith sylweddol wedyn pan fydd yr effaith lawn yn dechrau. Mae'n anodd pennu gwerth ariannol ar gyfer y ddau ddylanwad hyn; fodd bynnag, gan y tybir y bydd unrhyw effaith yn y cyfnod gwerthuso pum mlynedd yn fach iawn, mae'r un gwerth ar gyfer arbed costau wedi cael ei gymhwyso i bob blwyddyn o fewn y cyfnod hwn.

Mae manylion ychwanegol dylanwad y ffactorau hyn ar y duedd hon yn **Atodiad B**.

### 9.3.2 **Manteision anariannol**

Ymhlith y costau ychwanegol a fyddai'n cael eu hosgoi mae'r posibilrwydd o fusnesau'n colli refeniw oherwydd y gofyniad i israddio wyau maes i wyau sgubor. Er bod y colledion hyn yn gostau sy'n cael eu hosgoi, byddai eu cyfrifo'n gywir yn her sylweddol. Mae **Atodiad B** yn

[5] Amcangyfrif Kantar (ffigurau 2022)
[6] Eglurir yn amcangyfrif yn Atodiad B.
[7] Kantar (Cymru, 2023)
[8] Amcanestyniad Poblogaeth y DU 2020–35, y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

cynnig syniad o'r costau posibl sy'n gysylltiedig â rhai o'r ffactorau canlynol – fel cynhyrchwyr yn colli eu prisiau premiwm a'r gallu i allforio eu hwyau o dan label wyau maes i wledydd y tu allan i'r UE. Neu gostau cynhyrchu yn aros yn un peth er bod wyau'n cael eu labelu yn wyau sgubor, wrth i gynhyrchwyr barhau i ysgwyddo cost cynnal systemau wyau maes pan fo mesurau gorfodol ar waith i gadw adar o dan do.

Yn ogystal, pan na roddwyd esemptiadau gan Weinidogion i argraffu yn uniongyrchol ar wyau, mae busnesau wedi caffael bocsys wyau sydd eisoes â labeli wyau sgubor er mwyn cydymffurfio â rheoliadau marchnata. Mewn rhai achosion byddai hyn yn arwain at heriau logistaidd fel oedi wrth ddod o hyd i ddeunyddiau pecynnu priodol, oedi wrth fynd yn ôl i gynhyrchu bocsys ar gyfer wyau maes, ansicrwydd ynghylch pa mor hir y byddai angen y bocsys, a chostau gwastraff deunyddiau nas defnyddiwyd.

Nododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad fod rhai canolfannau pecynnu sy'n caffael wyau o ledled y DU wedi rhybuddio[9] cynhyrchwyr y gallent wrthod wyau o Gymru pan fydd gorchmynion i gadw adar o dan do ar waith yn y dyfodol. Mae hyn oherwydd heriau logistaidd wrth becynnu wyau o Gymru ar wahân, gan na fydd gan y ganolfan y cyfleusterau i wneud hynny. Gallai gwrthod derbyn wyau o Gymru gynyddu pris wyau Cymreig neu arwain at wyau wedi'u mewnforio o Loegr neu'r EU yn cael eu gwerthu yn eu lle. Er eu bod wedi cael eu cynhyrchu o dan yr un amodau, caniateir parhau i'w marchnata o dan label wyau maes.

Wrth ystyried yr opsiwn i 'Estyn y terfyn amser presennol ar y rhanddirymiad' (**Opsiwn 2**), byddai disgwyl i'r costau cysylltiedig a'r arbedion a amlinellir uchod fod yn debyg i senario 'Busnes fel arfer' (**Opsiwn 1**), gydag ychydig o amrywiadau yn unig. Byddai angen o hyd i fusnesau ymgyfarwyddo â'r newidiadau i'r rheoliadau. Byddai'r gofyniad i osod sticeri dros y labeli ar ddeunyddiau pecynnu a cholli'r pris premiwm am wyau maes yn cael eu gohirio am ychydig o wythnosau'n unig. Ar ben hynny, mae risg o hyd y gallai achos o ffliw adar bara'n hwy na'r terfyn amser newydd a gyflwynir, a gallai hyn arwain at yr un problemau ag o'r blaen.

## 9.4 **Alldro cyffredinol**

Fel y nodwyd yn flaenorol, disgwylir i'r costau sy'n gysylltiedig ag ymgyfarwyddo fod yn gost untro wedi'i hysgwyddo yn ystod y flwyddyn y caiff yr offeryn ei weithredu. Fodd bynnag, disgwylir i'r costau sy'n cael eu hosgoi o ganlyniad i beidio â gorfod gosod sticeri ar becynnau bara am flynyddoedd i ddod (er ei bod yn bosibl y gallai'r fantais hon leihau yn y tymor hwy). Er gwaethaf hyn, mae'n amlwg y bydd manteision diddymu'r terfyn amser ar y rhanddirymiad (**Opsiwn 3**), yn parhau ar ôl y flwyddyn

[9]Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Crynodeb o Ymatebion. Safonau Marchnata Wyau Maes a Chig Dofednod (Hydref 2024)

gychwynnol. Pan fydd cost gosod sticeri ar becynnau wedi cael eu tynnu oddi wrth gost ymgyfarwyddo, bydd arbedion net dros y cyfnod pum mlynedd, gan ddangos bod y manteision yn gorbwyso'r costau. *Mae costau a manteision wedi cael eu disgowntio gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio ganolog Trysorlys EF, sef 3.5%. Y gwerth net presennol (NPV) dros y cyfnod gwerthuso pum mlynedd yw £67,800.*

Tabl 3. Alldro cyffredinol

| | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau – gros** | | | | | |
| Ymgyfarwyddo | £61,600 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **Manteision – gros** | | | | | |
| Osgoi cost gosod sticeri ar becynnau | £27,700 | £27,700 | £27,700 | £27,700 | £27,700 |
| | | | | | |
| **Manteision net – cost** | -£33,900 | £27,700 | £27,700 | £27,700 | £27,700 |

## 10. Risgiau ac ansicrwydd

Mae risgiau yn y dadansoddiad yn deillio o'r ansicrwydd a'r heriau niferus wrth gyfrifo yn gywir gostau y dylanwedir arnynt gan ffactorau amrywiol. Mae ystyriaethau allweddol yn cynnwys y tebygolrwydd y bydd achosion o ffliw adar yn y dyfodol yn para yn hwy na'r rhanddirymiad 16 wythnos, effaith anrhagweladwy ymatebion defnyddwyr ar y galw am wyau maes pan osodir mesurau gorfodol ar waith i gadw adar o dan do, a'r goblygiadau ariannol os bydd polisi Cymru yn wahanol i weddill y DU a'r UE. Newidynnau a allai gael effaith sylweddol ar y manteision amcangyfrifedig.

.

## 11. Casgliad

Er gwaethaf yr ansicrwydd hwn, y gellir ei ddisgwyl wrth wneud amcanestyniadau sy'n gysylltiedig â chlefydau epidemiolegol fel ffliw adar, yr arbedion net amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â'r opsiwn a ffefrir i ddiddymu'r terfyn 16 wythnos ar y rhanddirymiad yw £76,900 dros bum mlynedd (£67,800 yn ôl gwerthoedd presennol). Mae’r arbedion hyn yn gorbwyso costau untro posibl ymgyfarwyddo â'r newidiadau, a gall hyn roi digon o hyder i fwrw ymlaen â'r diwygiad hwn i'r rheoliadau.

## 12. Adolygu ar ôl gweithredu

13.1 Ni wneir adolygiad ffurfiol gan na fydd y diwygiad i'r rheoliadau'n cyflwyno unrhyw faich rheoleiddio ychwanegol ar fusnesau nac ar y sector gwirfoddol. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn monitro effaith y newid deddfwriaethol hwn yn rhan o'i waith parhaus o oruchwylio'r diwydiant wyau yn ystod achosion o ffliw adar.

## 13. Asesiadau o’r Effaith

### 13.1 Asesiad o'r Effaith ar Gystadleuaeth

11.1 Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth yn awgrymu nad oes risg o effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth o fewn y diwydiant wyau o ganlyniad i'r newid deddfwriaethol a argymhellir. Ar ben hynny, ni leisiwyd unrhyw bryderon sylweddol gan y diwydiant ynghylch cystadleuaeth o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig, yn ystod yr ymgynghoriad ffurfiol.

### 13.2 Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant

12.1 Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar Hawliau Plant, yn ystod yr ymgynghori â'r cyhoedd na'r trafodaethau â rhanddeiliaid, nac wrth baratoi'r asesiad hwn. Yn unol ag adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, mae swyddogion o'r farn nad yw'r offeryn yn arwain at bryderon sy'n ymwneud â hawliau plant.

## 14. Atodiadau

### 14.1 Atodiad A – Costau

15.1.1 Costau Ymgyfarwyddo

Mae diffyg data empirig yn ei gwneud yn anodd nodi unrhyw gostau ymgyfarwyddo. Fodd bynnag, disgwylir y byddai'r costau hyn yn deillio o dasgau gweinyddol ychwanegol wrth ymgyfarwyddo â'r newidiadau. Byddai hyn yn cynnwys y cyfnod cychwynnol, wedi'i gyfrifo mewn oriau/cyflogau, i aelodau'r diwydiant ddeall a gweithredu'r diweddariadau. Ni fyddai hynny'n cymryd mwy na chwe awr i swyddog ar radd ganolig ar gyflog o £27.50 yr awr, a byddai hyn yn rhoi cost amcangyfrifedig o £200 fesul busnes, gan gynnwys gorbenion.

Amcangyfrifir bod 297 o gynhyrchwyr[10], pedair canolfan becynnu a saith asiant/cynrychiolydd allweddol yng Nghymru y byddai'n fuddiol iddynt ymgyfarwyddo â'r newidiadau. Mae hyn yn rhoi cyfanswm cost amcangyfrifedig o £61,600[11]. Disgwylir na fydd y gost hon yn berthnasol ond yn y flwyddyn y caiff yr offeryn ei weithredu.

### 14.2 Atodiad B – Manteision

Mae'r canlynol yn arbedion sy'n deillio o osgoi costau damcaniaethol i gyflenwyr a fyddai wedi cael eu hysgwyddo pe bai gofyniad cyfreithiol arnynt i israddio eu hwyau maes i wyau sgubor pan fydd y rhanddirymiad 16 wythnos wedi dod i ben.

14.2.1 Costau gosod sticeri ar becynnau

Mae cost gosod sticeri ar becynnau a amcangyfrifwyd ar gyfer 2025 yn seiliedig ar y dybiaeth na fydd y prisiau wedi'u darparu gan y diwydiant yn 2024 yn newid. Mae arbedion cost sy'n deillio o osgoi gosod sticeri ar becynnau wyau wedi cael eu hamcangyfrif yn unol â'r rhagdybiaethau canlynol.

- Amcangyfrifir mai nifer y pecynnau wyau sy'n cael eu gwerthu yng Nghymru yw 26,500,000[12] o becynnau.
- Canran yr holl wyau maes sy'n cael eu prosesu gan ganolfannau pecynnu yn y DU bob blwyddyn yw 60%[13]. O ystyried y nifer uchel o gynhyrchwyr wyau maes yng Nghymru, mae'r ganran hon wedi cael ei haddasu i adlewyrchu canran yr wyau maes o Gymru sy'n cael eu prosesu, sef amcangyfrif o 80%[14]. Mae hyn yn golygu mai nifer amcangyfrifedig y pecynnau o wyau maes wedi'u gwerthu yng Nghymru yw 21,200,000.
- Nifer cyfartalog yr wythnosau lle yr aeth y rhanddirymiad dros y terfyn o 16 wythnos bob blwyddyn, rhwng Blwyddyn 2021–22 a Blwyddyn 2023–24 yw 4.5 wythnos, sef 8.7% o flwyddyn galendr. Mae lluosi 21,200,000 â ffactor o 0.087 yn golygu yr effeithiwyd ar 1,844,400 o becynnau wyau, a thybir bod sticeri wedi cael eu gosod ar y rhain.
- Yn seiliedig ar ffigurau'r diwydiant sy'n nodi mai'r gost fesul sticer yw 1–2c fesul pecyn[15], amcangyfrifir mai cost sylfaenol gosod sticeri yw 1,844,400 x 0.015 = £27,666 y flwyddyn (£27,700 wedi'i dalgrynnu i'r 100 agosaf).

---

[10] Amcangyfrif Brookdale (2022). Amcangyfrifir bod 327 o ffermydd yng Nghymru sy'n cynhyrchu wyau i'w bwyta gan bobl, ac amcangyfrifir bod 90.7% o gynhyrchwyr Cymru yn cynhyrchu wyau maes.

[11] *Mae naw cadwyn archfarchnad fawr sydd â phresenoldeb ledled y DU a fyddai eisoes yn gyfarwydd â'r newid yn Lloegr, ac felly nad ydynt wedi cael eu cynnwys yn y cyfrifiad hwn. Fodd bynnag, maent wedi cael eu cynnwys yn nadansoddiad DEFRA o gostau.*

[12] Amcangyfrif Kantar a Brookdale (ffigurau 2022)

[13] Ystadegau Amaethyddiaeth DEFRA (2023).

[14] *O ystyried bod 90.7% o gynhyrchwyr wyau Cymru wedi'u rhestru fel cynhyrchwyr wyau maes o'u cymharu â 75% o gynhyrchwyr Lloegr, a'r galw uwch am wyau maes ac wyau Cymreig yng Nghymru, gallwn dybio'n rhesymol fod canran yr wyau maes yn uwch ar gyfer Cymru.*

[15] Amcangyfrif y diwydiant (sylwer nad yw wedi bod yn bosibl gwirio'r costau amcangyfrifedig hyn, a ddarparwyd gan y diwydiant ac a ddefnyddiwyd yn nadansoddiad DEFRA).

### 14.2.2 Ffactorau sy'n dylanwadu ar nifer y pecynnau bob blwyddyn

Er gwaethaf y ffaith y disgwylir i nifer yr wyau sy'n cael eu prynu yng Nghymru gynyddu yn raddol, o dan ddylanwad twf yn nifer yr aelwydydd[16] a'r boblogaeth, tybir y bydd nifer y pecynnau wyau maes yn gostwng yn raddol, yn seiliedig ar y dylanwadau posibl canlynol, ac o ganlyniad bydd gwerth yr arbedion cost sy'n gysylltiedig â gosod sticeri'n gostwng:

- **Galw defnyddwyr**: Mae'n bosib y byddai gostyngiad yn y galw am wyau maes wrth i ddefnyddwyr Cymru ddewis prynu wyau maes yn llai aml, gan adlewyrchu'r 24%[17] o ddefnyddwyr o Gymru sy'n anghytuno y dylai'r wyau hynny gael eu labelu yn wyau maes os yw'r rhanddirymiad yn para'n hwy nag 16 wythnos. Mae'r gostyngiad hwn yn cael ei gadarnhau wrth archwilio prisiau manwerthu wyau sy'n cael eu gwerthu mewn archfarchnadoedd,[18] yn ystod mesurau gorfodol i gadw adar o dan do yn 2021–22 a 2022–23, pan fu gostyngiad cyfartalog ym mhris cyfartalog wyau maes dros gyfnod o ddwy flynedd wrth i ddefnyddwyr ymateb i'r cyhoeddiad y byddai'r rhanddirymiad 16 wythnos yn dechrau.
- **Brechu:** Byddai cyflwyno brechlyn yn y blynyddoedd i ddod, y rhagwelir y bydd yn cael effaith drosiannol erbyn 2028–29 ac effaith lawn wedi hynny[19], yn dileu'r angen i gadw adar o dan do, ac o ganlyniad yn dileu'r angen i osod sticeri ar becynnau.

### 14.2.3 Colli'r pris premiwm wrth israddio wyau

Gellir cymryd yr arbedion cost – o ganlyniad i gael gwared ar yr angen i israddio wyau maes i statws wyau sgubor os bydd y rhanddirymiad yn para'n hwy nag 16 wythnos – yn ganiataol, o ystyried y canlynol.

- Amcangyfrifwyd mai nifer blynyddol cyfartalog yr wythnosau lle yr aeth rhanddirymiad dros y terfyn o 16 wythnos, rhwng Blwyddyn 2021–22 a Blwyddyn 2023–24, yw 4.5 wythnos, sef 8.7% o flwyddyn galendr.
- Os bydd y rhanddirymiad yn para'n hwy nag 16 wythnos, mae gofyniad cyfreithiol i gynhyrchwyr ail-labelu wyau maes yn wyau sgubor. Mae busnesau'n dibynnu ar ewyllys da cwsmeriaid i barhau i dalu pris premiwm.

---

[16] *Mae nifer yr wyau sy'n cael eu prynu yng Nghymru yn 2023 wedi cael eu cymharu â 2022 (Kantar). Er bod cyfanswm yr wyau sy'n cael eu prynu wedi amrywio o ganlyniad i bandemig COVID-19 a'r heriau dilynol o ran costau byw, mae gwerth gwerthiannau wedi cynyddu'n gyffredinol, wedi'u hysgogi gan brisiau uwch fesul uned. Mae canran yr aelwydydd sy'n prynu wyau wedi parhau i fod yn sefydlog, sef tua 94%, a chan fod y boblogaeth wedi tyfu yn gyffredinol (Amcanestyniad Poblogaeth y DU 2020–35 (SYG)), mae nifer y prynwyr wedi cynyddu. Yn ogystal, mae data Arolwg Bwyd Teulu SYG wedi nodi tuedd tymor hir sy'n dangos bod nifer yr wyau mae pob person yn eu bwyta'n codi.*

[17]Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Crynodeb o Ymatebion. Safonau Marchnata Wyau Maes a Chig Dofednod (Hydref 2024)

[18] Darparwyd gan Gymdeithas Cynhyrchwyr Wyau Maes Prydain

[19] *Mae'r rhagdybiaethau ynghylch amseru ac effeithiau brechlyn yn dod o ddadansoddiad DEFRA.*

- Amcangyfrifwyd yr effeithiwyd ar 21,200,000[20] o becynnau o Gymru bob blwyddyn.
- Pris cyfartalog wyau gât y fferm yn y DU fesul dwsin oedd £1.46 am wyau maes a £1.09 am wyau sgubor yn 2023[21].
- Yn ôl y diwydiant, gallai costau posib i fusnesau'r DU – a allai arwain at golli refeniw o hyd at £73,000 – 1.1 miliwn[22] – ddeillio o'r gwahaniaeth rhwng pris manwerthu wyau maes ac wyau sgubor.
- Yn ogystal â cholli refeniw – hyd at £20k yr wythnos o bosibl – o ganlyniad i wyau na ellir eu hallforio mwyach o dan y disgrifiad wyau maes pan fydd y rhanddirymiad 16 wythnos yn dod i ben.
- Nid yw costau cynhyrchu'n newid pan fydd gorchymyn i gadw adar o dan do ar waith, ac mae cynhyrchwyr yn parhau i ysgwyddo cost cynnal systemau wyau maes. Amcangyfrifir bod cost gyffredinol cynhyrchu wyau maes yn y DU 17% yn uwch na chostau cynhyrchu wyau sgubor[23].

### 14.4 Atodiad C – Ffigurau

#### Tabl C.1 Mathau o Wyau

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Farchnad (DEFRA) 2023** | |
| Wyau cewyll dodwy | 23% |
| Wyau maes | 64% (gan gynnwys amcangyfrif o 4% organig) |
| Wyau sgubor | 13% |
| **Sector Manwerthu (Kantar) 2023** | |
| Wyau cewyll dodwy | 20% |
| Wyau maes | 74% (gan gynnwys 3% organig) |
| Wyau sgubor | 6% |

#### Tabl C.2 Prisiau Manwerthu Wyau

Cynhaliodd Cymdeithas Cynhyrchwyr Wyau Maes Prydain arolygon o brisiau wyau archfarchnadoedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r data ar gyfer y cyfnod sy'n berthnasol i adegau pan oedd rhanddirymiad ar waith yng Nghymru wedi cael ei ddefnyddio yma. Mae'r tabl yn dangos newid i brisiau cyfartalog dros ddwy flynedd pan gyhoeddwyd rhanddirymiad 16 wythnos.

[20] Gweler 14.2.1 Costau gosod sticeri
[21] Ystadegau Amaethyddol DEFRA (2023)
[22] Amcangyfrif y diwydiant (sylwer nad yw wedi bod yn bosibl gwirio'r costau amcangyfrifedig hyn, a ddarparwyd gan y diwydiant ac a ddefnyddiwyd yn nadansoddiad DEFRA).
[23] Amcangyfrif y diwydiant.

## Data o arolygon BFREPA o brisiau manwerthwyr

| | |
|---|---|
| Cyfnod 16 wythnos | Misoedd yn gorgyffwrdd rhywfaint |
| Wedi'u labeli yn wyau sgubor | |
| Misoedd arferol | |

### 2921-22

**Pris 12 wy maes yn ystod mesurau i gadw adar o dan do 2021–2022 (29 Tachwedd – 2 Mai)**

| | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Asda | £1.98 | £1.98 | £1.98 | £1.98 | £1.98 | £2.05 | £2.10 | £2.20 | £2.20 |
| Aldi | £1.89 | £1.89 | £1.89 | £1.89 | £1.89 | £1.89 | £1.99 | £2.05 | £2.09 |
| Iceland | £2.00 | £2.00 | £2.00 | £2.00 | £2.00 | £2.00 | £2.25 | £2.35 | £2.35 |
| Lidl | £1.89 | £1.89 | £1.89 | £1.89 | £1.89 | £1.89 | £1.89 | £2.05 | £2.09 |
| Marks and Spencer | £3.50 | £3.50 | £3.50 | £3.60 | £3.75 | £3.75 | £3.75 | £3.75 | £3.75 |
| Morrisons | £1.99 | £1.99 | £1.99 | £1.99 | £1.99 | £1.99 | £2.09 | £2.20 | £2.20 |
| Sainsburys | £2.00 | £2.00 | £2.10 | £2.15 | £2.15 | £2.15 | - | £2.20 | £2.30 |
| Tesco | £2.05 | £2.05 | £2.10 | £2.10 | £2.10 | £2.10 | £2.20 | £2.20 | £2.20 |
| Waitrose | £3.50 | £2.50 | £3.60 | £3.60 | £3.60 | £3.60 | £3.60 | £3.60 | £3.65 |
| | | | | | | | | | |
| Cyfartalog | £2.31 | £2.20 | £2.34 | £2.36 | £2.37 | £2.38 | £2.48 | £2.51 | £2.54 |
| | | -4.8% | 6.3% | 0.7% | 0.7% | 0.3% | 4.4% | 1.1% | 1.0% |

### 2922-23

**Pris 12 wy maes yn ystod mesurau i gadw adar o dan do 2022–2023 (2 Rhagfyr – 18 Ebrill)**

| | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Asda | £2.40 | £2.45 | £2.55 | £2.55 | £2.55 | £2.85 | £2.85 | £2.85 | £2.90 |
| Aldi | £2.19 | £2.19 | £2.25 | £2.29 | £2.35 | £2.49 | £2.49 | £2.65 | £2.65 |
| Iceland | £2.40 | £2.45 | £2.69 | £2.69 | £2.69 | £2.69 | £2.85 | £2.85 | £2.85 |
| Lidl | £2.19 | £2.19 | £2.39 | £2.45 | £2.45 | £2.55 | £2.55 | £2.55 | £2.79 |
| Marks and Spencer | £3.75 | £3.75 | £3.90 | £3.90 | £4.00 | £4.00 | £4.00 | £4.00 | £4.00 |
| Morrisons | £2.25 | £2.25 | £2.25 | £2.55 | £2.55 | £2.79 | £2.85 | £2.85 | £2.85 |
| Sainsburys | £2.35 | £2.55 | £2.55 | £2.55 | £2.55 | £2.55 | £2.80 | £2.85 | £2.85 |
| Tesco | £2.35 | £2.55 | £2.55 | £2.55 | £2.80 | £2.80 | £2.80 | £2.80 | £2.85 |
| Waitrose | £4.10 | £4.10 | £4.25 | £4.25 | £4.25 | £3.95 | £3.95 | £3.95 | £3.95 |
| | | | | | | | | | |
| Cyfartalog | £2.66 | £2.72 | £2.82 | £2.86 | £2.91 | £2.96 | £3.02 | £3.04 | £3.08 |
| | | 2.10% | 3.70% | 1.60% | 1.60% | 1.80% | 1.80% | 0.80% | 1.20% |
| | | | 76.30% | -57.10% | 0.90% | 15.20% | -3.80% | -56.10% | 60.70% |
| ddwy flynedd 21/22 – 22/23 | £2.49 | £2.46 | £2.58 | £2.61 | £2.64 | £2.67 | £2.75 | £2.78 | £2.81 |
| | | | | | | | | | |
| Pris cychwynnol cyfartalog | | -1.36% | | | | | | | |
| | | £0.03 | | | | | | | |
| Gostyngiadau ar y pris cyfartalog presennol (h.y. y diweddaraf sydd ar gael | | -£0.042 | | | | | | | |

**Tabl C.3 Nifer yr wyau sy'n cael eu prosesu gan Ganolfannau Pecynnu yn y DU yn ôl Gwlad**
(Miliwn o ddwsinau)
Ystadegau Amaethyddol DEFRA

| Blwyddyn | Cymru a Lloegr | Yr Alban | Gogledd Iwerddon | Y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|---|
| 2021 | 651 | 122 | 170 | 943 |
| 2022 | 577 | 117 | 175 | 869 |
| 2023 | 522 | 126 | 182 | 830 |

**Tabl C.4 Nifer yr wyau sy'n cael eu prosesu gan Ganolfannau Pecynnu yn y DU yn ôl y dull cynhyrchu**
(% o gyfanswm y cynhyrchiant blynyddol, miliynau o ddwsinau)
**Ystadegau Amaethyddol DEFRA**

| Blwyddyn | Wyau cewyll wedi'u cyfoethogi | Wyau ysgubor | Wyau maes | Wyau organig |
|---|---|---|---|---|
| 2021 | 35.4% | 1.8% | 59.0% | 3.8% |
| 2022 | 28.1% | 6.8% | 61.4% | 3.7% |
| 2023 | 23.4% | 12.9% | 59.9% | 3.9% |